# Canllawiau ar Apeliadau a Cheisiadau a wneir i Weinidogion Cymru

**Canllawiau i:** bersonau penodedig sy'n penderfynu ar geisiadau i amrywio neu ganslo hysbysiad sy'n gofyn i berchennog gyflawni gweithrediadau a cheisiadau i ad-dalu gwariant perchennog lle mae hysbysiad i gyflawni gweithrediadau wedi'i ganslo o dan Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 a Rheoliadau Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Apelau ac Ad-dalu Treuliau) (Cymru) 2027

**Cyhoeddwyd gan:** Weinidogion Cymru

**Yn weithredol o: 1 Ebrill 2027** (cychwyn y Ddeddf a'r Rheoliadau)

## Cyflwyniad

1. Pasiwyd Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 gan y Senedd ym mis Medi 2025 a daw'n gwbl weithredol ar 1 Ebrill 2027. Mae'r Ddeddf yn ymdrin ag etifeddiaeth hirsefydlog y gorffennol diwydiannol yng Nghymru drwy greu cyfundrefn fodern i gadw cymunedau'n ddiogel rhag bygythiadau'r tomenni glo a'r tomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir.

2. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dull cyson o asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir ledled Cymru. Yng Nghymru, mae'n disodli Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969, sydd wedi hen ddyddio, ac yn rhoi cychwyn ar sefydliad newydd - Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru (yr Awdurdod) - i oruchwylio'r gyfundrefn newydd a'i rhoi ar waith. O dan adran 35 o'r Ddeddf, gall yr Awdurdod gyhoeddi hysbysiad sy'n gofyn i berchennog ar dir gyflawni gweithrediadau (y cyfeirir ato fel hysbysiad adran 35). Gellir cyhoeddi hysbysiad adran 35 os yw'r Awdurdod o'r farn bod angen gwneud hyn er mwyn atal bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu ymdrin â nhw, er mwyn sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag mynd yn fwy ansefydlog. Diben hyn fydd osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl Mae'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i berchnogion ar dir a phartïon â buddiant wneud cais i Weinidogion Cymru amrywio neu ganslo hysbysiad adran 35 (o dan adran 38). Pan fydd yr Awdurdod wedi canslo hysbysiad adran 35 a bod y perchennog ar dir wedi mynd i gostau i gydymffurfio ag ef, gall y perchennog ar dir hawlio ad-daliad o'r costau o dan y Ddeddf (o dan adran 43).

3. Er mwyn gwneud yn siŵr bod penderfyniadau ynghylch ceisiadau yn deg ac yn dryloyw, mae'r Ddeddf yn gofyn i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau y weithdrefn a fydd yn cael ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau o'r fath.

## Diben y canllawiau

4. Caiff y canllawiau hyn eu cyfeirio at y person a benodir gan Weinidogion Cymru (y person penodedig) i benderfynu ar y ceisiadau a wneir o dan adrannau 38 a 43 o'r Ddeddf. Maent yn crynhoi'r fframwaith deddfwriaethol ac yn cynnig canllawiau ymarferol ar gymhwyso'r gweithdrefnau a nodwyd yn Rheoliadau Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Apelau ac Ad-dalu Treuliau) (Cymru) 2027 (y Rheoliadau). Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r Ddeddf a'r Rheoliadau.

## Cwmpas y rheoliadau

5. Mae'r Rheoliadau'n sefydlu gweithdrefn glir, dryloyw a chymesur i benderfynu ar geisiadau a wneir i Weinidogion Cymru o dan adrannau 38 a 43 o'r Ddeddf. Eu diben yw sicrhau bod y personau y mae'r penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod o dan adrannau 35 a 42 o'r Ddeddf yn effeithio arnynt yn cael llwybrau clir i geisio cael ystyriaeth deg i'w hapêl. Gosododd y Rheoliadau y weithdrefn ar gyfer penderfynu ar geisiadau o dan adran 38 o'r Ddeddf i amrywio neu ganslo hysbysiad adran 35, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gyflawni gweithrediadau i ymdrin â sefydlogrwydd tomen nas defnyddir. Gall parti â buddiant sy'n cael copi o hysbysiad adran 35 hefyd wneud cais i Weinidogion Cymru amrywio neu ganslo'r hysbysiad, a bydd unrhyw gais o'r fath hefyd yn destun y weithdrefn a nodwyd yn y Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer penderfynu ar geisiadau i ad-dalu costau o dan adran 43 o'r Ddeddf pan fo hysbysiad adran 35 wedi'i ganslo gan yr Awdurdod (o dan adran 42).

6. Mae'r Rheoliadau'n nodi'r broses ar gyfer penderfynu, o gyflwyno cais hyd at benderfynu arno a hysbysu ynghylch y penderfyniad. Maent yn pennu'r wybodaeth sy'n ffurfio rhan o gais, y terfynau amser ar gyfer sylwadau a sylwadaethau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i benderfynu ar apeliadau. Mae'r rhain yn cynnwys: sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau, ymchwiliadau neu gyfuniad o'r rhain. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer materion gweithdrefnol cysylltiedig fel cyfnewid dogfennau, cyfathrebiadau electronig, ymweliadau safle a'r pŵer i'r person penodedig reoli achosion lle bo angen er mwyn sicrhau tegwch a threfn. Daw'r Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 40 a 43(7), (8) a (9) o'r Ddeddf, i rym ar 1 Ebrill 2027 ac maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

## Rôl Gweinidogion Cymru

7. O dan y Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am sefydlu'r weithdrefn i'w dilyn wrth benderfynu ar geisiadau a wneir o dan adrannau 38 a 43 a phenodi person i benderfynu ar y ceisiadau hynny. Gwneir ceisiadau i Weinidogion Cymru, a phenderfynir arnynt gan berson penodedig. Rhaid i benderfyniadau fynd yn eu blaen yn gyfreithlon yn unol â'r Rheoliadau. Mae Gweinidogion Cymru yn gallu dirymu penodiad person penodedig o dan rai amgylchiadau, ac os felly, maent yn gyfrifol am benodi person arall i benderfynu ar gais.

## Rôl yr Awdurdod

8. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gyhoeddi hysbysiadau adran 35, a chaiff hefyd gyhoeddi hysbysiad o ganslo. Mae'r Rheoliadau yn darparu mewn perthynas â sylwadau y caiff yr Awdurdod eu gwneud a chyflwyno dogfennau wrth benderfynu ar apeliadau, gan nodi'r terfynau amser perthnasol. Rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan y person penodedig yn ystod cyfarfod cyn ymchwiliad, sydd â'r nod o sicrhau bod y broses apelio'n gweithredu'n deg, yn dryloyw ac yn unol â'r gweithdrefnau statudol.

## Rôl y person penodedig

9. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i berson penodedig benderfynu ar geisiadau o dan adrannau 38 a 43. Nid yw'r Ddeddf yn pennu pa berson y mae'n rhaid ei benodi, gan roi hyblygrwydd o ran y ffordd y gweinyddir y system. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn gweithredu fel y person penodedig ac yn rheoli'r broses ar ran Gweinidogion Cymru, ond Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol o hyd o ran penodi person a gall benodi rhywun ar wahân i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.

10. Mae'r person penodedig yn gyfrifol am benderfynu ar geisiadau a wneir o dan adrannau 38 a 43 o'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys dewis y weithdrefn briodol (sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad, ymchwiliad neu gyfuniad o'r rhain), ar ôl rhoi sylw i'r canllawiau a roddwyd i'r person penodedig gan Weinidogion Cymru ac ar ôl ystyried safbwyntiau'r ceisydd, fel y'u nodwyd yn y cais. Mae'r person penodedig hefyd yn gyfrifol am bennu amserlenni, cyhoeddi cyfarwyddiadau a sicrhau bod yr apêl yn mynd rhagddi'n effeithlon. Caiff y person penodedig amrywio'r weithdrefn a ddewiswyd cyn y penderfynir ar y cais lle bo angen.

11. Mae'r person penodedig hefyd yn rheoli'r ffordd y caiff gwrandawiadau ac ymchwiliadau eu cynnal. Mae ei bwerau yn cynnwys y gofyniad i gyfnewid

gwybodaeth, heb gynnwys deunydd hwyr, amherthnasol neu ailadroddus, a rheoli cyfranogiad os bydd ymddygiad yn tarfu ar y broses. Gellir cynnal archwiliadau o safleoedd pan fydd eu hangen i lywio'r penderfyniad.

12. Yn y pen draw, rhaid i'r person penodedig sicrhau bod y penderfyniadau'n rhesymedig ac yn dryloyw. Disgwylir iddo gymryd pob cam rhesymol i benderfynu ar geisiadau'n brydlon ac yn unol â'r Rheoliadau, gan ddarparu mesur diogelu annibynnol o fewn y system reoleiddio.

## Darpariaethau perthnasol Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025

### Adran 35: Hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir i gynnal gweithrediadau

13. Mae hwn yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gynnal gweithrediadau penodol ar ei dir. Pwrpas y gweithrediadau hyn yw:

- atal bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu ymdrin â’r bygythiadau hynny, neu
- sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag mynd yn fwy ansefydlog,

er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl.

14. Rhaid i'r hysbysiad nodi'r domen dan sylw yn glir, disgrifio'r gweithrediadau y mae angen eu cyflawni ac esbonio'r bygythiad i les pobl y mae'r gweithrediadau'n bwriadu mynd i'r afael â nhw. Rhaid iddo hefyd bennu terfyn amser i gwblhau'r gweithrediadau, na all fod yn gynt na 21 diwrnod ar ôl rhoi'r hysbysiad i'r perchennog. Bydd gwybodaeth am hysbysiadau'n cael ei chynnwys mewn canllawiau y bydd Gweinidogion Cymru'n eu cyhoeddi i'r Awdurdod. Bydd ymgynghoriad ar y canllawiau i'r Awdurdod yn ddiweddarach eleni.

### Adran 37: Dyletswydd i roi copïau o hysbysiad i bartïon â buddiant

15. Mae adran 37 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi copi o hysbysiad adran 35 i bartïon â buddiant fel y'u diffiniwyd y Ddeddf. Lle y bo'n briodol, mae hyn yn cynnwys person oedd ag ystad neu fuddiant yn y tir ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mlynedd cyn y diwrnod y rhoddir hysbysiad adran 35 i'r perchennog ar dir. Rhaid i'r Awdurdod roi'r copïau gofynnol ymhen saith diwrnod i roi'r hysbysiad i'r perchennog ar dir.

### Adran 38: Hawl perchennog a phartïon â buddiant i apelio yn erbyn hysbysiad

16. Mae'r adran hon yn rhoi hawl i berchnogion ar dir a phartïon â buddiant wneud cais i amrywio neu ganslo hysbysiad a roddir o dan adran 35 o'r Ddeddf. Os bydd perchennog yn cael hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyflawni gweithrediadau ar ei dir, neu os bydd person â buddiant wedi cael copi o'r hysbysiad hwnnw, gall parti wneud cais i Weinidogion Cymru amrywio neu ganslo'r hysbysiad. Rhaid i'r cais gael ei wneud o fewn 21 diwrnod i roi'r hysbysiad i'r perchennog.

17. Caniateir gwneud cais o dan yr adran hon ar un neu ragor o’r seiliau a nodwyd yn adran 38(3). Mae'r rhain yn cynnwys:

- nad oes sail resymol dros gredu bod y gweithrediadau sy’n ofynnol gan yr hysbysiad yn angenrheidiol er mwyn osgoi neu leihau’r bygythiad i les pobl a bennir yn yr hysbysiad;
- bod y gweithrediadau sy’n ofynnol gan yr hysbysiad yn fwy helaeth nag sy’n angenrheidiol er mwyn osgoi neu leihau’r bygythiad i les pobl a bennir yn yr hysbysiad;
- bod
    I. y bygythiad i les dynol a bennir yn yr hysbysiad yn fygythiad y gellid ei osgoi, neu ei leihau i’r un graddau o leiaf, drwy gynnal gweithrediadau gwahanol, yn gyfan gwbl neu’n rhannol, i’r gweithrediadau sy’n ofynnol gan yr hysbysiad, a
    II. bod y perchennog yn fodlon cynnal y gweithrediadau amgen;
- bod
    I. y perchennog neu berson arall eisoes wedi dechrau, neu wedi ymrwymo i gontract gyda thrydydd parti i ddechrau, gweithrediadau sy’n wahanol, yn gyfan gwbl neu’n rhannol, i’r gweithrediadau sy’n ofynnol gan yr hysbysiad, a
    II. bod y gweithrediadau amgen yn osgoi, neu’n lleihau i’r un graddau o leiaf, y bygythiad i les pobl a bennir yn yr hysbysiad;
- nad yw’r cyfnod y mae rhaid cynnal y gweithrediadau sy’n ofynnol gan yr hysbysiad ynddo yn rhesymol ddigonol;
- bod diffyg neu wall perthnasol yn yr hysbysiad, neu mewn perthynas ag ef.

18. Caiff perchennog ar dir y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 35 hefyd wneud cais o dan yr adran 38 ar y sail nad yw’r perchennog yn gallu talu costau’r gweithrediadau sy’n ofynnol gan yr hysbysiad.

19. O dan adran 38, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu'r Awdurdod a phob person sydd wedi cael hysbysiad neu gopi ohono, fod cais wedi dod i law i amrywio neu ganslo'r hysbysiad.

## Adran 39: Penderfynu apelau

20. Mae Adran 39 yn nodi sut mae'n rhaid penderfynu ar geisiadau a wneir o dan adran 38. Mae ceisiadau i’w benderfynu gan berson penodedig, a gaiff amrywio neu ganslo'r hysbysiad gwreiddiol os yw wedi'i fodloni y cydymffurfir â seiliau'r apêl. Pan wneir cais o dan adran 38 ac y penderfynu arno, nid yw’r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad adran 35 fel y cyfnod y mae rhaid cwblhau’r gweithrediadau ynddo yn dod i ben cyn penderfynu ar y cais. Mae hyn yn golygu na all y person sydd wedi cael hysbysiad adran 35 fod yn euog o drosedd am fethu â chydymffurfio â'r hysbysiad tra penderfynir ar y cais. Caiff y person penodedig hefyd estyn yr amser i gwblhau gweithrediadau lle y bo'n briodol. Gellir gwneud hyn p'un a oes y seiliau dros gais wedi cael eu nodi ai pheidio. Unwaith y bydd y person penodedig wedi penderfynu ar y cais, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu'r Awdurdod a phob person a gafodd yr hysbysiad gwreiddiol neu gopi ohono a'r canlyniad.

## Adran 40 Darpariaeth atodol ynghylch apelau

21. Mae adran 40 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am y weithdrefn ar gyfer penderfynu ar geisiadau a wneir o dan adran 38. Mae'r rheoliadau yn caniatáu'r person penodedig i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â chais drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud rheoliadau ar faterion eraill sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar geisiadau. Felly, caiff rheoliadau ymdrin â materion fel camau rhagarweiniol neu ganlyniadol a chânt gynnwys pwerau, er enghraifft, pwerau i fynd ar dir lle bo angen i sicrhau penderfyniad teg. Caiff rheoliadau ymdrin â materion gweithdrefnol ac anweithdrefnol, cânt roi disgressiwn i berson a chânt greu troseddau mewn cysylltiad â methiannau i gydymffurfio â gofynion a osodwyd gan neu o dan y rheoliadau hynny.

## Adran 43: Ad-dalu treuliau’r perchennog ar ôl canslo hysbysiad

22. Mae adran 43 yn gymwys pan fydd yr Awdurdod wedi canslo hysbysiad adran 35 a bod y perchennog wedi mynd i wariant i gydymffurfio â'r hysbysiad hwnnw. Caiff y perchennog wneud cais i Weinidogion Cymru am ad-daliad gan yr Awdurdod am (a) unrhyw wariant yr aed iddo o ganlyniad i roi'r hysbysiad a (b) unrhyw wariant y gellir ei briodoli i'r broses ganslo ei hun, fel costau adfer neu dreuliau sy'n codi o ganslo contractau. Rhaid i'r person penodedig roi sylw i holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys yn benodol y ddau fater a nodir yn adran 43(5)(a) (y seiliau y rhoddodd yr Awdurdod yr hysbysiad canslo arnynt), a (b) (pa un a yw’r Awdurdod wedi rhoi neu’n bwriadu rhoi hysbysiad pellach i’r perchennog o dan adran 35 neu’n bwriadu cynnal gweithrediadau ei hun). Pan fo'r person penodedig yn rhoi cyfarwyddyd i'r Awdurdod ad-dalu'r holl wariant neu ran ohono, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar geisiadau o dan adran 43 ac yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymdrin â materion eraill sy'n gysylltiedig â'r ffordd y penderfynir ar geisiadau o'r fath.

## Ceisiadau o dan adran 38 o'r Ddeddf

23. Mae adran 38 yn caniatáu i'r rhai y rhoddwyd hysbysiad adran 35 iddynt a'r rhai y rhoddwyd copi o hysbysiad adran 35 iddynt wneud cais i amrywio neu ganslo'r hysbysiad. Rhaid gwneud ceisiadau o fewn 21 diwrnod i roi'r hysbysiad a rhaid iddynt gynnwys yr wybodaeth a'r dogfennau ategol a nodwyd yn y Rheoliadau. Mae'r Ddeddf yn pennu'r seiliau y gellir gwneud cais arnynt, ac esbonnir y rhain yn yr adrannau canlynol.

## Cynnwys Cais

24. Rhaid cyflwyno cais i ganslo neu amrywio hysbysiad adran 35 i Weinidogion Cymru. Rhaid gwneud y cais ar y ffurflen a ddarperir gan Weinidogion Cymru at ddiben apelio yn erbyn hysbysiad adran 35. Rhaid iddo gynnwys:

- manylion cyswllt y ceisydd, gan gynnwys enw, cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn;
- manylion cyswllt unrhyw asiant sy'n gweithredu ar ei ran;
- y seiliau dros yr apêl y mae'r ceisydd yn dibynnu arnynt;

- datganiad ynghylch a yw'r ceisydd yn dymuno i'r apêl gael ei benderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad, neu ymchwiliad, ynghyd â'r rhesymau dros y dewis hwnnw;
- rhestr o'r holl ddogfennau ategol, gyda dyddiadau lle y bo'n gymwys;
- copi o'r hysbysiad adran 35 sy'n destun apêl a chopïau o'r holl ddogfennau y mae'r ceisydd yn bwriadu dibynnu arnynt;
- lleoliad y tir y mae hysbysiad adran 35 yn ymwneud ag ef;
- enw neu enwau cyffredin y tir;
- manylion buddiant y ceisydd yn y tir; a

25. Rhaid i'r person penodedig benderfynu yn gyntaf a yw'r cais yn bodloni gofynion y Rheoliadau cyn dewis y weithdrefn apelio a sbarduno'r dyddiad dechrau.

## Penderfynu ar Geisiadau

26. Pan ddaw cais i amrywio neu ganslo hysbysiad adran 35 i law, bydd Gweinidogion Cymru yn penodi person i benderfynu ar y cais.

## Penderfyniad ynghylch Gweithdrefn Apelio a Dyddiad Dechrau er gyfer ceisiadau adran 38

27. Unwaith y bydd cais o dan adran 38 yn bodloni'r gofynion yn y Rheoliadau mewn perthynas â'r wybodaeth a'r dogfennau a ddarparwyd (rheoliad [5]), rhaid i'r person penodedig benderfynu sut bydd yn penderfynu ar y cas, gan ddewis rhwng sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad, ymchwiliad neu gyfuniad o'r gweithdrefnau hyn. Rhaid i'r person penodedig hysbysu'r ceisydd a'r Awdurdod am y weithdrefn a ddewiswyd. Bydd y weithdrefn a ddewiswyd yn dylanwadu ar yr amserlen ar gyfer y cais ac yn penderfynu ar y camau y bydd yn rhaid i bob parti eu dilyn.

28. Yn ogystal, ar yr un pryd â hysbysu'r Awdurdod ynghylch y penderfyniad mewn perthynas â'r weithdrefn, rhaid i'r person penodedig hefyd anfon copi o'r cais a'r holl ddogfennau cysylltiedig a gyflwynwyd gan y ceisydd i'r Awdurdod.

29. Yr enw ar y diwrnod ar ôl rhoi'r hysbysiad hwn yw dyddiad dechrau'r cais.

## Newid y Weithdrefn

30. Caiff y person penodedig newid y weithdrefn a ddewiswyd unrhyw bryd cyn y penderfynir ar y cais. Bydd pa un a yw newid mewn gweithdrefn yn briodol yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Er enghraifft, caniateir symud achos sy'n dechrau o dan y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig i wrandawiad neu ymchwiliad os bydd y person penodedig o'r farn bod angen archwiliad pellach.

31. Er enghraifft, gallai perchennog apelio yn erbyn hysbysiad adran 35 a gofyn am ymdrin â'r cais drwy sylwadau ysgrifenedig. Mae'r seiliau dros apelio yn y cais yn nodi nad yw'r domen yn peri risg a bod y gweithrediadau y mae'r hysbysiad yn gofyn amdanynt yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol.

32. Wrth adolygu'r sylwadau ysgrifenedig, mae'r person penodedig yn nodi bod cryn anghydfod rhwng y perchennog a'r Awdurdod ynghylch natur a difrifoldeb y risg i les dynol. Mae'r partïon hefyd yn anghytuno ynghylch a oes angen gweithrediadau

penodol o dan hysbysiad adran 35 er mwyn osgoi neu leihau'r risg honno, gyda phob ochr yn dibynnu ar asesiadau technegol sy'n cefnogi'r dadleuon gwahanol.

33. Mae'r person penodedig o'r farn na ellir datrys y materion hyn yn briodol ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig yn unig. Gan fod angen archwiliad pellach, bydd y person penodedig yn penderfynu newid y weithdrefn o sylwadau ysgrifenedig i wrandawiad er mwyn cael craffu'n fanylach ar y dystiolaeth. Caiff y partïon eu hysbysu ynghylch y newid, a bydd yr apêl yn parhau o dan weithdrefn y gwrandawiad. Ni fydd y dyddiad dechrau'n newid.

### Rhannu gwybodaeth

34. Rhaid i'r Awdurdod ddarparu manylion cyswllt pawb sydd wedi cael copi o hysbysiad adran 35 o dan adran 37 o'r Ddeddf (partïon â buddiant) i'r person penodedig ymhen pythefnos i'r dyddiad dechrau. Caiff yr wybodaeth hon ei darparu er mwyn i'r person penodedig allu cyflawni ei swyddogaethau.

### Sylwadau a sylwadaethau

35. Mae'r adran hon yn nodi'r camau a'r terfynau amser ar gyfer sylwadau a sylwadaethau. Mae pob terfyn amser yn rhedeg o'r dyddiad dechrau.

36. Pan benderfynir ar y cais drwy sylwadau ysgrifenedig:

- Rhaid i'r Awdurdod anfon unrhyw sylwadau a dogfennau y mae'n dymuno dibynnu arnynt at y person penodedig o fewn 4 wythnos i'r dyddiad dechrau.
- Caiff y ceisydd anfon unrhyw sylwadau neu ddogfennau ychwanegol at y person penodedig o fewn 4 wythnos i'r dyddiad dechrau.
- Rhaid i'r person penodedig anfon y sylwadau ysgrifenedig a'r dogfennau a ddarparwyd gan yr Awdurdod at y ceisydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo eu derbyn. Rhaid i'r person penodedig hefyd anfon copi o unrhyw sylwadau neu ddogfennau ychwanegol a ddarparwyd gan y ceisydd, at yr Awdurdod.
- Rhaid i'r person penodedig anfon copïau o unrhyw sylwadau ysgrifenedig eraill mewn perthynas â'r apêl, at y ddau barti hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo eu derbyn.
- Caiff y ceisydd a'r Awdurdod anfon sylwadaethau ar y sylwadau neu'r datganiadau hynny at y person penodedig o fewn chwe wythnos gan ddechrau â'r dyddiad dechrau.
- Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r cyfnod o chwe wythnos ddod i ben, rhaid i'r person penodedig anfon copi o sylwadaethau'r Awdurdod at y ceisydd, a chopi o sylwadaethau'r ceisydd at yr Awdurdod.

37. Pan benderfynir ar y cais drwy wrandawiad neu ymchwiliad:

- Rhaid i'r ceisydd a'r Awdurdod ill dau anfon datganiad at y person penodedig o fewn pedair wythnos i'r dyddiad dechrau. Bydd y datganiad yn cynnwys manylion llawn yr achos maent yn cynnig ei roi gerbron a rhestr o'r dogfennau maent yn bwriadu cyfeirio atynt neu eu cyflwyno fel tystiolaeth.

- Rhaid i'r person penodedig gyfnewid y datganiadau hynny a'r rhestrau o ddogfennau rhwng y partïon cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- Caiff y ceisydd a'r Awdurdod anfon sylwadaethau ar y sylwadau neu'r datganiadau hynny at y person penodedig o fewn chwe wythnos gan ddechrau â'r dyddiad dechrau. Rhaid i'r person penodedig anfon copi o sylwadaethau'r Awdurdod at y ceisydd, a chopi o sylwadaethau'r ceisydd at yr Awdurdod cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfnod hwnnw.

38. Y person penodedig sy'n gyfrifol am reoli amserlen yr apêl. Pan fydd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gymryd cam "cyn gynted ag y bo'n ymarferol", dylid gwneud hyn heb oedi diangen. Wrth anfon sylwadau, datganiadau neu sylwadaethau, disgwylir y bydd hyn yn cael ei wneud ar yr un pryd (er enghraifft, os bydd y person penodedig yn cael sylwadau gan yr Awdurdod ar ddiwrnod 12 a sylwadau gan y ceisydd ar ddiwrnod 16, dylai'r person penodedig anelu at anfon y sylwadau hynny at yr Awdurdod a'r ceisydd (fel y bo'n briodol) ar ôl derbyn y dogfennau ar ddiwrnod 16. Pan gadarnheir nad yw'r ceisydd yn bwriadu gwneud sylwadau ychwanegol, dylai'r person penodedig anelu at anfon unrhyw sylwadau ac ati a wnaed gan yr Awdurdod at y ceisydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo eu derbyn). Disgwylir y bydd y person penodedig yn cadw cofnodion clir a chymesur o ddyddiadau allweddol, dogfennau a dderbyniwyd a phryd y caiff deunydd ei ddosbarthu (gweler Atodiad 1 am dabl o ddyddiadau cau o dan yr adran hon o'r canllawiau).

## Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau

39. Mae'r adran hon yn esbonio sut y caiff gwrandawiadau ac ymchwiliadau eu trefnu a'u rheoli gan y person penodedig. Mae'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r person penodedig ei wneud wrth bennu dyddiadau, hysbysu partïon a gwneud trefniadau i sicrhau bod y broses yn deg, yn hygyrch ac yn effeithiol. Mae hefyd yn esbonio'r opsiynau ar gyfer cynnal gwrandawiadau wyneb yn wyneb neu o bell, o dan ba amgylchiadau y gellir gwneud penderfyniadau ar ddeunydd ysgrifenedig yn unig a phryd y gall fod angen cyfarfod cyn ymchwiliad i helpu i drefnu a rheoli ymchwiliad.

## Pryd y bydd gwrandawiad yn briodol

40. Bydd gwrandawiad yn briodol os gellir datrys problemau drwy drafodaeth ymchwiliol ar lafar, dan arweiniad y person penodedig. Mae gwrandawiadau yn caniatáu i'r person penodedig ofyn cwestiynau, egluro pwyntiau ac archwilio'r dystiolaeth gyda'r partïon, ond fel arfer ni chaniateir iddo eu croesholi.

41. Mae'r gwrandawiadau'n gweddu orau i apeliadau pan nad oes dadl fawr ynglŷn â ffeithiau, pan nad yw tystiolaeth arbenigol yn gwrthdaro, neu pan fydd y materion dan sylw yn ymwneud â dehongli, cymesuredd, gweithdrefn neu resymoldeb yr hysbysiad adran 35. Yn yr achosion hyn, bydd angen eglurhad yn hytrach na phrofi'r dystiolaeth yn ffurfiol. Mae'r person penodedig yn cadw rheolaeth lawn ar y gwrandawiad a chaiff gwestiynu'r naill barti neu'r llall i ymdrin â bylchau neu ansicrwydd yn y deunydd o'i flaen.

## Pryd y bydd angen ymchwiliad

42. Bydd angen ymchwiliad pan fydd y person penodedig yn penderfynu bod angen croeshoeliad er mwyn sicrhau archwiliad teg a thrwyadl o'r prif faterion. Ni ellir croesholi yn y gwrandawiad yn gyffredinol, felly rhaid i unrhyw achos sy'n gofyn am brofi tystiolaeth yn ffurfiol fynd rhagddo drwy ymchwiliad.

43. Mae'r amgylchiadau sy'n gofyn am ymchwiliad fel arfer yn cynnwys tystiolaeth dechnegol neu arbenigol croes, anghydfodau ffeithiol difrifol lle mae hygrededd o bwys. Mae proses fwy strwythuredig ymchwiliad, sy'n cynnwys datganiadau o ffeithiau y cytunwyd arnynt a phrawf o dystiolaeth, yn cynnig cyfle i ystyried safbwyntiau a methodolegau croes yn fanwl.

## Sefydlu'r Gwrandawiad neu'r Ymchwiliad

44. Rhaid i'r person penodedig bennu dyddiad y gwrandawiad neu'r ymchwiliad (y dyddiad perthnasol) a rhaid iddo roi o leiaf bedair wythnos o rybudd i'r ceisydd, yr Awdurdod ac unrhyw un a gafodd gopi o hysbysiad adran 35 o dan adran 37 o'r Ddeddf (partïon â buddiant). Disgwylir i'r Awdurdod geisio barn y partïon wrth bennu'r dyddiad perthnasol, er mwyn ceisio pennu dyddiad sy'n gyfleus o bob parti. Cydnabyddir nad oes modd gwneud hyn bob amser. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi hysbysiad o'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad o leiaf bythefnos cyn iddo ddigwydd, gan ddefnyddio dull mwyaf effeithiol ym marn yr Awdurdod i'w dynnu at sylw pobl sy'n debygol o fod â diddordeb.

45. Os bydd dyddiad y gwrandawiad neu'r ymchwiliad yn newid, rhaid ailadrodd y camau hysbysu. Wrth drefnu'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad, bydd angen ystyried

anghenion hygyrchedd a, lle y bo'n briodol, darparu dogfennau mewn fformatau amgen, megis drwy'r post, yn electronig neu mewn braille.

46. Mae gan y person penodedig ddisgresiwn i benderfynu pa faterion y mae'n fwyaf priodol eu hystyried mewn gwrandawiad neu ymchwiliad a pha rai y gellir ymdrin â nhw drwy sylwadau ysgrifenedig. Pan ddefnyddir gweithdrefn gymysg, dylai'r person penodedig nodi'r materion sy'n gofyn am drafodaeth ar lafar a nodi'r rhain yn glir i'r partïon ar gam cynnar. Drwy roi eglurder o'r fath mae hyn yn helpu i sicrhau bod y defnydd o weithdrefnau gwahanol yn gymesur ac yn cefnogi archwiliad teg ac effeithlon o'r apêl.

47. Disgwylir i'r person penodedig gyhoeddi rhestr fer o bynciau ar gyfer sesiynau gwrandawiad pan fydd yn cadarnhau'r weithdrefn. Dylai hyn adlewyrchu ei asesiad o'r materion a godwyd yn yr apêl, gan gynnwys unrhyw feysydd lle ceir anghydfod neu gymhlethdod technegol, a dylid sicrhau bod ffocws y gwrandawiadau ar faterion lle bydd trafodaethau ar lafar wir yn helpu i ddod i benderfyniad seiliedig ar wybodaeth dda. Bydd cyfathrebu'n glir o ran y pynciau hyn yn helpu'r ceisydd, yr Awdurdod ac unrhyw rai eraill sy'n cymryd rhan i baratoi'n effeithiol a chyfrannu at broses drefnus a phwrpasol o wneud cais.

## Gwrandawiadau

48. Mae gwrandawiadau'n rhoi fforwm hyblyg i'r person penodedig sicrhau y gellir archwilio'r materion na ellir ymdrin â nhw'n llawn yn ysgrifenedig, a'u profi mewn ffordd deg a thryloyw.

49. Gall y person penodedig ddewis fformatau wyneb yn wyneb, o bell neu hybrid. Lle y bo'n briodol, gall y person penodedig fwrw ymlaen ar sail deunydd ysgrifenedig os na all parti fod yn bresennol, gohirio i ddatrys materion (gan gynnwys rhai technegol) neu gynnal y gwrandawiad cyfan neu ran ohono yn breifat.

50. Rhaid i'r person penodedig bennu dyddiad y gwrandawiad a rhoi o leiaf bedair wythnos o rybudd i'r ceisydd, yr Awdurdod ac unrhyw un a gafodd gopi o'r hysbysiad adran 35 o dan adran 37 o'r Ddeddf (partïon â buddiant). Os bydd y person penodedig yn newid dyddiad gwrandawiad, bydd hyn yn sbarduno dyletswydd y person priodol i hysbysu'r partïon a rhoi o leiaf bedair wythnos o rybudd o'r dyddiad newydd a chyhoeddi hysbysiad o'r gwrandawiad bythefnos o leiaf cyn iddo ddigwydd. Os bydd y person penodedig yn newid dyddiad y gwrandawiad, rhaid iddo ailadrodd y camau hysbysu a chyhoeddi.

51. Rhaid i'r person penodedig bennu dyddiad gwrandawiad (y cyfeirir ato fel “y dyddiad perthnasol” yn y Rheoliadau). Ar ôl i'r dyddiad perthnasol gael ei bennu, bydd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno dau fath o hysbysiad ar wahân:

### Hysbysiad gan y person penodedig (pedair wythnos o leiaf)

52. Rhaid i'r person penodedig roi rhybudd o'r dyddiad perthnasol bedair wythnos o leiaf cyn i'r gwrandawiad ddigwydd. Rhaid rhoi'r rhybudd i'r canlynol:

- y ceisydd;
- yr Awdurdod; ac
- unrhyw berson a gafodd gopi o'r hysbysiad adran 35 o dan adran 37 o'r Ddeddf.

### Cyhoeddi hysbysiad gan yr Awdurdod (pythefnos o leiaf)

53. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi hysbysiad o'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad o leiaf bythefnos cyn y dyddiad perthnasol. Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad yn y dull mwyaf effeithiol ym marn yr Awdurdod i dynnu'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad at sylw'r personau sy'n debygol o fod â diddordeb ynddo.

54. Os bydd y person penodedig yn newid y dyddiad perthnasol, rhaid ailadrodd y camau hysbysu uchod. Mae hyn yn golygu:

- bod rhaid i'r person penodedig roi hysbysiad newydd o'r dyddiad perthnasol newydd, gan sicrhau y cydymffurfir â'r cyfnod hysbysu o bedair wythnos o leiaf; a
- bod rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi hysbysiad o'r dyddiad perthnasol newydd, gan sicrhau y cydymffurfir â'r cyfnod cyhoeddi o bythefnos o leiaf.

55. Nid oes unrhyw hysbysiadau cynharach sy'n gysylltiedig â'r dyddiad gwreiddiol yn dileu'r angen i fodloni'r gofynion hysbysu sylfaenol ar gyfer y dyddiad diwygiedig.

56. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut mae'r cyfnodau hysbysu byrraf a ganiateir yn gweithredu lle y caiff dyddiad y gwrandawiad ei newid ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad cychwynnol.

Dyddiad a hysbysiadau gwreiddiol y gwrandawiad

- Ar 1 Mawrth, bydd y person penodedig yn pennu 1 Ebrill fel dyddiad y gwrandawiad
- Ar 1 Mawrth, bydd y person penodedig yn rhoi rhybudd o'r dyddiad perthnasol i'r ceisydd, yr Awdurdod a'r rhai wedi derbyn copi o adran 37 (sy'n bodloni'r gofyniad o bedair wythnos o leiaf ar gyfer gwrandawiad ar 1 Ebrill.
- Ar 15 Mawrth, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi hysbysiad o'r gwrandawiad (sy'n bodloni'r gofyniad o bythefnos o leiaf ar gyfer gwrandawiad ar 1 Ebrill).

Newid dyddiad y gwrandawiad

- Ar 15 Mawrth, bydd y person penodedig yn newid dyddiad y gwrandawiad i 20 Ebrill.

Beth mae'n rhaid digwydd i gydymffurfio â Rheoliad 11(2) ac 11(3)

- Rhaid i'r person penodedig roi rhybudd newydd o'r dyddiad perthnasol newydd (20 Ebrill) i'r ceisydd, yr Awdurdod a'r rhai sydd wedi derbyn copi o adran 37 bedair wythnos o leiaf cyn 20 Ebrill. Mae hyn yn golygu mai'r dyddiad olaf y mae'n rhaid rhoi rhybudd yw 23 Mawrth.
- Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi hysbysiad newydd o'r gwrandawiad ar gyfer y dyddiad perthnasol newydd (20 Ebrill) bythefnos o leiaf cyn 20 Ebrill. Mae hyn yn golygu mai'r dyddiad olaf y mae'n rhaid cyhoeddi'r hysbysiad yw 6 Ebrill.

57. Yn ymarferol, dylai'r person penodedig a'r Awdurdod gyhoeddi'r hysbysiadau diwygiedig cyn gynted â phosibl ar ôl i'r dyddiad newid, er mwyn rhoi eglurder i bob parti a'u helpu i gymryd rhan yn effeithiol.

58. Mae'n bosibl y bydd y person penodedig ond yn penderfynu cynnal gwrandawiad o bell neu hybrid os bydd yn fodlon bod pob parti yn gallu cyflwyno'i achos yn llawn, bod modd i bob un sy'n cymryd rhan glywed a chael ei glywed, ac mewn gwrandawiadau dros fideo, weld a chael ei weld, a bod modd gwrando'r cais mewn ffordd deg a thryloyw. Gall y person penodedig hefyd benderfynu cynnal y gwrandawiad yn gyfan gwbl drwy gyswllt sain byw pan nad oes fideo ar gael yn sgil problemau cysylltedd a bod y ceisydd a'r Awdurdod yn cytuno. Pan fydd y person penodedig yn dewis fformat o bell neu hybrid, rhaid iddo sicrhau bod y cyfarpar mynediad o bell angenrheidiol ar gael iddo.

59. Os bydd y person penodedig yn ystyried ei bod yn briodol, caiff benderfynu bwrw ymlaen i benderfynu ar y cais ar sail yr wybodaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd, os bydd y ceisydd neu'r Awdurdod yn methu â bod yn bresennol ar ddyddiad y gwrandawiad. Bydd y person penodedig hefyd yn penderfynu ar y weithdrefn ar gyfer y gwrandawiad, gan gynnwys pwy all ymddangos a sut bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal. Rhaid i'r person penodedig ganiatáu i'r ceisydd, yr Awdurdod a'r rhai sy'n gwneud sylwadau am yr apêl i ymddangos a chaiff benderfynu caniatáu i bobl eraill gymryd rhan. Pan wneir cais am i rywun ymddangos mewn gwrandawiad neu ymchwiliad, ni chaniateir i'r person penodedig beidio â rhoi caniatâd mewn perthynas ag ymddangosiad o'r fath yn afresymol. Dim ond os bydd y person penodedig o'r farn ei fod yn angenrheidiol er mwyn archwilio'r prif faterion yn drwyadl y caniateir croesholi. Os felly, rhaid i'r person penodedig ystyried a ddylid cau'r gwrandawiad a chynnal ymchwiliad yn ei le. Wrth wneud y penderfyniad hwn, rhaid i'r person penodedig ymgynghori â'r ceisydd a'r Awdurdod ac ystyried eu safbwyntiau.

60. Yn ystod y gwrandawiad, caiff y person penodedig ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig, dogfennau neu dystiolaeth sydd wedi dod i law cyn neu yn ystod y gwrandawiad, cyhyd â'i fod yn eu datgelu i'r rhai sy'n cymryd rhan. Caiff y person penodedig hefyd benderfynu peidio â chynnwys tystiolaeth neu gyfyngu ar y rhai sy'n cymryd rhan pan fydd deunydd yn hwyr, pan na fydd yn cydymffurfio, pan fydd yn amherthnasol, yn ailadroddus neu pan fydd y person yn ymddwyn yn aflonyddol. Caiff y person penodedig ofyn i rywun aflonyddol adael y gwrandawiad, atal y person rhag cymryd rhan yn y gwrandawiad neu caiff osod amodau er mwyn iddo barhau i gymryd rhan. Caiff y person penodedig ohirio'r gwrandawiad unrhyw bryd a chaiff benderfynu cynnal y gwrandawiad, neu ran ohono, yn breifat. Byddai hyn yn dibynnu ar ffactorau fel amgylchiadau penodol yr apêl a natur y deunydd sy'n cael ei drafod.

## Cyfarfod cyn yr ymchwiliad

61. Mae'r Rheoliadau yn nodi pan benderfynir ar gais drwy ymchwiliad, caiff y person penodedig ddewis cynnal cyfarfod cyn yr ymchwiliad. Diben y cyfarfod cyn ymchwiliad yw helpu'r person penodedig a'r rhai sy'n cymryd rhan i ganolbwyntio ar y materion, a phennu amserlenni paratoi clir, gan leihau'r risg o oedi neu anghydfodau ar ôl i'r ymchwiliad agor. Drwyddo, gellir rhoi eglurder ynglŷn â chymryd rhan ac anghenion tystiolaethol ar gam cynnar, gan wella effeithlonrwydd a thegwch yr ymchwiliad a ganlyn. Dyma rai enghreifftiau ynghylch pam y gall person penodedig gael cyfarfod cyn yr ymchwiliad:

- Er mwyn nodi a chyfyngu ar gwmpas y materion sydd i'w harchwilio yn yr ymchwiliad – caiff y person penodedig ystyried bod cyfarfod o gymorth pan fydd y cais yn codi sawl mater neu faterion cymhleth ac y gallai trafodaeth gynnar

gadarnhau pa faterion y cytunwyd arnynt, pa rai sy'n destun anghydfod o hyd a pha rai y mae angen rhoi tystiolaeth yn eu cylch yn yr ymchwiliad.

- Er mwyn rhoi cyfarwyddiadau am dystiolaeth a chamau gweithdrefnol – gellir cynnal cyfarfod cyn yr ymchwiliad pan fydd angen i'r person penodedig egluro pa wybodaeth, dogfennau neu brawf tystiolaeth y mae angen eu cyflwyno, ac erbyn pa ddyddiadau cau, er mwyn i'r ymchwiliad fynd rhagddo mewn ffordd drefnus.
- Er mwyn cadarnhau pwy sy'n bwriadu ymddangos a rôl pob un sy'n cymryd rhan – gall y person penodedig ddymuno penderfynu pa unigolion neu sefydliadau sy'n bwriadu cymryd rhan, a fyddant yn cael eu cynrychioli ai peidio a sut bydd eu cyfranogiad yn cael ei reoli.
- Er mwyn trafod a datrys trefniadau ymarferol - gall cyfarfod fod yn ddefnyddiol os oes angen rhoi sylw i drefniadau logistaidd, er enghraifft, hyd yr ymchwiliad, ystyriaethau o ran lleoliad, gofynion cymryd rhan o bell neu'r angen am gymorth technegol.
- Er mwyn osgoi oedi neu anghydfod ar ôl i'r ymchwiliad agor – pan fydd risg o anghytundebau gweithdrefnol hwyr, ansicrwydd ynghylch tystiolaeth neu ddisgwyliadau aneglur rhwng y ceisydd a'r Awdurdod, gall y person penodedig benderfynu bod angen cyfarfod i osgoi cymhlethdodau ar ôl i'r ymchwiliad ddechrau.
- Er mwyn rheoli ymchwiliadau sy'n cynnwys llawer iawn o ddeunydd neu nifer o dystion - os bydd yr ymchwiliad yn debygol o gynnwys dogfennaeth helaeth, tystiolaeth arbenigol neu sawl tyst, gall y person penodedig gynnal cyfarfod i drefnu sut bydd y deunydd yn cael ei drafod a'i gyflwyno.

62. Pan benderfynir ar gais drwy ymchwiliad, gall y person penodedig gynnal cyfarfod cyn yr ymchwiliad i benderfynu ar y materion y dylid ymdrin â nhw yn yr ymchwiliad a'r weithdrefn y dylid ei dilyn. Os bydd y person penodedig yn penderfynu cynnal cyfarfod cyn yr ymchwiliad, rhaid iddo roi pedair wythnos o rybudd o leiaf i'r ceisydd, yr Awdurdod, unrhyw un y mae'n hysbys ar ddyddiad yr hysbysiad bod ganddo yr hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad ac unrhyw berson arall y mae'r person penodedig o'r farn y byddai ei bresenoldeb yn ddymunol.

63. Yn y cyfarfod cyn yr ymchwiliad, gall y person penodedig roi cyfarwyddiadau i'r ceisydd, yr Awdurdod ac unrhyw berson arall sy'n dymuno ymddangos yn yr ymchwiliad, am bethau i'w gwneud i baratoi ar gyfer yr ymchwiliad, ac erbyn pryd y mae'n rhaid eu gwneud. Mae'n ofyniad cydymffurfio â chyfarwyddyd.

## Datganiad o Ffeithiau y Cytunwyd Arnynt – Ymchwiliadau

64. Pan benderfynir ar apêl drwy ymchwiliad, rhaid i'r ceisydd a'r Awdurdod baratoi datganiad o ffeithiau y cytunwyd arnynt. Mae'r datganiad o ffeithiau y cytunwyd arnynt yn ddogfen ar y cyd sy'n nodi holl ffeithiau'r achos y gallant gytuno arnynt. Mae'r datganiad yn egluro'r hyn nad yw'n destun anghydfod er mwyn i'r ymchwiliad allu canolbwyntio ar y materion sy'n weddill y mae angen eu harchwilio mewn gwirionedd.

65. Bwriad y datganiad yw helpu'r person penodedig, gan gynnwys:

- Pan fydd yr ymchwiliad yn cynnwys sawl ffaith dechnegol neu hanesyddol a phan fydd cadarnhau'r hyn y cytunir arno yn osgoi treulio amser diangen yn cadarnhau gwybodaeth gefndir sylfaenol.
- Pan fydd cymysgedd o ddeunydd y cytunwyd arno a deunydd sy'n destun anghydfod ac y bydd gwahanu'r rhain yn glir yn helpu i roi strwythur i'r ymchwiliad a chynllunio trefn y dystiolaeth.
- Pan fydd y materion yn gymhleth ac y bydd cytundeb ffeithiol cynnar yn cefnogi amserlen ymchwiliad sy'n effeithlon ac sy'n dangos ffocws.

66. Rhaid i'r Awdurdod sicrhau y caiff y datganiad o ffeithiau y cytunwyd arnynt ei anfon at y person penodedig o leiaf bythefnos cyn i'r ymchwiliad ddechrau. Dylai'r datganiad gwmpasu materion ffeithiol a gytunwyd arnynt sy'n berthnasol i'r cais a bod yn glir er mwyn helpu'r ymchwiliad.

## Proflenni Tystiolaeth – Ymchwiliadau

67. Rhaid i unrhyw un sydd â'r hawl i ymddangos mewn ymchwiliad, sy'n bwriadu rhoi tystiolaeth neu alw tyst anfon proflen dystiolaeth at y person penodedig o leiaf bythefnos cyn dyddiad yr ymchwiliad, oni fydd y person penodedig yn pennu dyddiad cau gwahanol. Dylid anfon hon ar y cyd ag unrhyw grynodeb ysgrifenedig.

68. Mae gofyn am broflenni tystiolaeth a chrynodebau lle maent yn hirfaith, yn hyrwyddo tegwch ac effeithlonrwydd drwy sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan a'r person penodedig, yn deall yr achos a'r dystiolaeth cyn yr ymchwiliad.

69. Ar ôl cael proflen dystiolaeth, rhaid i'r person penodedig anfon copi at y ceisydd, i'r Awdurdod ac unrhyw berson arall sydd wedi cyflwyno proflen dystiolaeth. Mae hyn yn sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn gweld deunydd ei gilydd ymlaen llaw. Mae dosbarthu'r deunydd gan y person penodedig yn lleihau'r risg o syndod, yn helpu i ganolbwyntio amser yr ymchwiliad ar y materion gwirioneddol, ac yn cefnogi proses gymesur o reoli achosion, gan gynnwys croesholi lle y bo'n briodol.

70. Os bydd proflen dystiolaeth yn fwy na 1,500 o eiriau, rhaid i'r darparwr hefyd gyflenwi crynodeb ysgrifenedig. Gellir darllen y crynodeb yn unig yn yr ymchwiliad, oni bai bod y person penodedig yn rhoi cyfarwyddyd fel arall. Pan fydd crynodeb yn cael ei ddarllen, caiff y broflen lawn ei thrin fel proflen wedi'i chynnig fel tystiolaeth, oni bai bod y darparwr yn cadarnhau ei fod yn dymuno dibynnu ar y crynodeb ar ei ben ei hun. Gall tystion gael eu croesholi ar y broflen i'r un graddau â phe bai eu tystiolaeth wedi'i rhoi ar lafar.

71. Gall y person penodedig ganiatáu addasiadau neu ychwanegiadau at broflen dystiolaeth neu grynodeb os bydd angen at ddibenion yr ymchwiliad. Os caniateir y newidiadau, rhaid i'r person penodedig sicrhau y bydd pob person arall sy'n ymddangos yn cael digon o gyfle i ystyried y deunydd newydd, a all gynnwys gohirio'r ymchwiliad os oes angen.

72. Mae'r gweithdrefnau hyn yn gweithredu yn amodol ar bwerau'r person penodedig i beidio â chynnwys personau neu dystiolaeth, er enghraifft pan fydd deunydd yn hwyr, pan na fydd yn cydymffurfio, pan fydd yn amherthnasol neu'n ailadroddus.

## Gweithdrefn – gwrandawiadau ac ymchwiliadau

73. Mae gan y person penodedig y rheolaeth weithdrefnol angenrheidiol i gynnal gwrandawiadau ac ymchwiliadau'n effeithlon ac yn deg. Drwy ganiatáu i'r person penodedig reoli pwy sy'n ymddangos, rheoli tystiolaeth, caniatáu croesholiad neu gyfyngu arno a gohirio lle y bo angen, mae'r Rheoliadau'n cynnig fframwaith hyblyg y gellir ei addasu i amgylchiadau pob cais. Mae gallu'r person penodedig i benderfynu ar y weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawiad neu ymchwiliad yn cefnogi proses gwneud penderfyniadau gymesur a thryloyw gan sicrhau tegwch i bawb sy'n cymryd rhan.

74. Y rhai sydd â'r hawl i ymddangos mewn gwrandawiad neu ymchwiliad:

- y ceisydd;
- yr Awdurdod; ac
- unrhyw berson sydd wedi gwneud sylwadau yn ymwneud â'r apêl.

75. Caiff y person penodedig hefyd ganiatáu i bobl eraill ymddangos ac ni chaniateir iddo wrthod rhoi caniatâd yn afresymol. Caiff partïon ymddangos wyneb yn wyneb neu gael eu cynrychioli gan rywun arall.

76. Caiff cynrychiolwyr gynnwys cynghorwyr cyfreithiol, arbenigwyr technegol fel peirianwyr geotechnegol neu fwyngloddio, asiantau proffesiynol, cydweithwyr neu unigolion dibynadwy eraill sy'n gallu helpu. Caiff person ddewis cael ei gynrychioli pan fydd y materion yn dechnegol neu'n gymhleth, os byddai'n fuddiol iddo gael cymorth i gyflwyno'i achos neu reoli dogfennau neu i'w helpu i gymryd rhan yn effeithiol, er enghraifft, pan fydd hyder, anghenion cyfathrebu neu'r angen posibl i ymateb pan ymchwilir i'r dystiolaeth yn gwneud cynrychiolaeth yn ddefnyddiol.

77. Caiff person sydd â'r hawl i ymddangos alw am dystiolaeth, ond y person penodedig sydd â'r disgresiwn i alw am dystiolaeth. Mewn gwrandawiad, ni chaniateir croesholi oni bai bod y person penodedig yn ystyried bod ei angen er mwyn sicrhau archwiliad trwyadl o'r prif faterion. Os bydd angen croesholi, rhaid i'r person penodedig ystyried a ddylid cau'r gwrandawiad a chynnal ymchwiliad yn ei le, ar ôl ymgynghori â'r ceisydd a'r Awdurdod.

78. Mewn ymchwiliad, caiff person sydd â'r hawl i ymddangos groesholi person sy'n rhoi tystiolaeth, ond y person penodedig sy'n cadw'r disgresiwn i reoli hyd a lled y croesholiad.

79. Caiff y person penodedig ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig, tystiolaeth neu ddogfennau a gyflwynir cyn neu yn ystod y gwrandawiad neu'r ymchwiliad, ar yr amod y caiff ei ddatgelu. Caiff y person penodedig hefyd benderfynu bod yn rhaid cynnal y gwrandawiad neu'r ymchwiliad, neu ran ohono, yn breifat os yw o'r farn bod hyn yn briodol.

## Pwerau i beidio â chynnwys personau, tystiolaeth ac ati

80. Mae gan y person penodedig y disgresiwn i reoli gwrandawiadau ac ymchwiliadau drwy atal unigolion rhag rhoi tystiolaeth, croesholi rhywun sy'n rhoi tystiolaeth neu gyflwyno unrhyw fater, lle y bo angen er mwyn cynnal tegwch ac effeithlonrwydd. Gellir ymarfer y disgresiwn hwn mewn nifer o sefyllfaoedd, er enghraifft os bydd tystiolaeth yn hwyr, os na fydd yn cydymffurfio â'r rheoliadau na chyfarwyddiadau, os

bydd yn amherthnasol neu'n ailadroddus neu os bydd person yn ymddwyn yn aflonyddol. Mewn achosion o ymddygiad aflonyddol, gall y person penodedig osod amodau, cyfyngu ar gyfranogiad neu ei gwneud yn ofynnol i rywun ymadael, gan sicrhau bod penderfyniadau a rhesymau'n cael eu cofnodi'n glir. Lle y caiff tystiolaeth lafar ei gwrthod oherwydd ymddygiad aflonyddol, gellir parhau i dderbyn sylwadau ysgrifenedig oni bai bod modd cyfiawnhau gwaharddiad o dan yr un meini prawf. Mae'r mesurau hyn yn diogelu hygrededd yr achosion ac yn sicrhau bod gan wrandawiadau ac ymchwiliadau ffocws o hyd a'u bod yn drefnus ac yn dryloyw.

### Gwrandawiadau ac ymchwiliadau cydredol neu gyfunol

81. Er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi dyblygu, dylai'r person penodedig fynd ati i nodi ceisiadau cysylltiedig sy'n ymwneud â'r un hysbysiad adran 35. Pan benderfynir ar geisiadau drwy wrandawiadau neu ymchwiliadau, a bod y materion yn ddigon cysylltiedig, gall y person penodedig roi cyfarwyddyd bod yr achosion yn cael eu cynnal ar yr un pryd neu eu cyfuno mewn un gwrandawiad neu ymchwiliad.

### Cwestiynau Diogelwch Gwladol

82. Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi tystysgrif y byddai apêl yn groes i fuddiannau diogelwch gwladol pe bai ymchwiliad yn cael ei gynnal neu pe bai rhai personau yn cael eu derbyn i'r ymchwiliad, yna ni fydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal, neu ni fyddai rhai personau yn cael eu derbyn i'r ymchwiliad (neu ran ohono). Mae diogelwch gwladol yn drech na gofynion gweithdrefnol arferol a bydd disgwyl i'r person penodedig gadw cofnodion cywir a chlir o gamau a gymerwyd at ddibenion atebolrwydd.

## Dirymu penodiad

83. Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu penodiad y person penodedig, os na phenderfynwyd ar gais, os bydd y naill a'r llall yn gymwys:

- bod y person penodedig yn dweud wrth Weinidogion Cymru yn ysgrifenedig ei fod yn methu â pharhau i benderfynu ar y cais; neu
- fod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni fel arall fod y person penodedig yn methu â pharhau.

### Os bydd y person penodedig yn dweud wrth Weinidogion Cymru yn ysgrifenedig

84. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft:

- os yw'r person penodedig yn mynd yn anhwylus neu'n analluog ac yn methu â pharhau â'r cais;
- os oes gan y person penodedig wrthdaro buddiannau neu os daw yn ymwybodol o wybodaeth sy'n creu gwrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig;
- os yw'r person penodedig yn newid cyflogaeth neu rôl broffesiynol ac nad yw'n gallu gweithredu'n annibynnol mwyach;
- os nad yw'r person penodedig yn bodloni gofynion ei benodiad mwyach; neu

- os nad yw'r person penodedig ar gael am gyfnod estynedig ac yn methu â phenderfynu ar y cais o fewn amserlen resymol.

### Os bydd Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni fel arall

85. Gallai hyn godi, er enghraifft, pan fydd Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod y person penodedig:

- yn wynebu amgylchiadau sy'n peryglu ei annibyniaeth neu ei ddidueddrwydd;
- wedi methu â symud y cais yn ei flaen ac na ellir disgwyl yn rhesymol iddo wneud hynny;
- wedi peidio â gweithredu yn y rôl am resymau ymarferol neu gyfreithiol; neu
- fel arall, yn methu â chwblhau'r penderfyniad ar y cais mewn ffordd deg ac amserol.

86. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd Gweinidogion Cymru yn penodi rhywun arall cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol i benderfynu ar y cais.

87. Os caiff person newydd ei benodi, mae gan y person hwnnw'r disgresiwn i benderfynu fesul achos, p'un a ddylai apêl ailgychwyn o'r dechrau neu barhau o'r cam y mae eisoes wedi'i gyrraedd. Wrth wneud y penderfyniad hwn, bydd disgwyl i'r person penodedig ystyried amgylchiadau'r achos a'r dystiolaeth ysgrifenedig sydd eisoes wedi'i chyflwyno.

88. Gan fod deunyddiau a gyflwynwyd yn flaenorol yn parhau i fod yn rhan o'r cofnod, gan leihau'r angen i ddyblygu, disgwylir i'r person penodedig ystyried sut orau i reoli parhad a thryloywder mewn achosion o'r fath, yn enwedig os yw gwrandawiadau eisoes wedi'u cynnal neu os yw tystiolaeth wedi'i chyflwyno.

## Gweithdrefn i ad-dalu treuliau'r perchennog ar dir os caiff hysbysiad adran 35 ei ganslo

89. Mae adran 43 o'r Ddeddf yn caniatáu i berchennog ar dir y rhoddwyd hysbysiad adran 35 iddo wneud cais am ad-daliad o'i dreuliau ar adeg canslo hysbysiad. Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu'r gwariant y caiff y perchennog geisio ei adennill ar ôl i'r hysbysiad gael ei ganslo, ac esbonnir y rhain yn yr adrannau canlynol.

90. Gall perchennog ar dir wneud cais i Weinidogion Cymru i gael ad-daliad gan yr Awdurdod ar gyfer:

- Gwariant yr aed iddo o ganlyniad i roi'r hysbysiad adran 35
- Gwariant yr aed iddo ac y gellir ei briodoli i ganslo'r hysbysiad
- Gwariant yr aed iddo o ganlyniad i roi'r hysbysiad adran 35

91. Gallai hyn dalu am unrhyw gostau y mae'r perchennog ar dir wedi mynd iddynt wrth gyflawni'r gweithrediadau sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad, hyd yn oed os nad oes angen y gwaith hwnnw mwyach. Gallai hyn gynnwys treuliau yr aed iddynt wrth baratoi i gyflawni'r gweithrediadau sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Talu contractwr i ddechrau'r gwaith neu baratoi ar gyfer y gwaith.

- Llogi peiriannau, cyfarpar neu offer.
- Prynu deunyddiau.
- Ffioedd proffesiynol neu arolygon yr oedd eu hangen i ddechrau'r gwaith sy'n ofynnol.

92. Gellir hawlio'r costau hyn oherwydd roeddent yn codi'n uniongyrchol o'r hysbysiad adran 35.

- Gwariant y gellir ei briodoli i ganslo'r hysbysiad, gan gynnwys (heb gyfyngiad) gwariant y gellir ei briodoli i adfer unrhyw dir, canslo unrhyw gontract neu wariant arall y gellir ei briodoli i ganslo.

93. Gallai hyn gwmpasu unrhyw gostau yr aed iddynt o ganlyniad i ganslo'r hysbysiad ei hun. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Adfer tir (e.e. lle mae gwaith eisoes wedi dechrau).
- Canslo contract (e.e. talu ffioedd canslo i gontractwr).

## Gwneud cais o dan adran 43 o'r Ddeddf

94. Rhaid cyflwyno cais i ad-dalu treuliau perchennog ar dir ar ôl i hysbysiad adran 35 gael ei ganslo i Weinidogion Cymru ymhen chwe mis, gan ddechrau â dyddiad yr hysbysiad canslo. Rhaid i'r cais gael ei gyflwyno ar y ffurflen a ddarperir gan Weinidogion Cymru. Rhaid iddo gynnwys:

- manylion cyswllt llawn y ceisydd, gan gynnwys enw, cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn;
- manylion cyswllt unrhyw asiant sy'n gweithredu ar ei ran;
- lleoliad y tir y mae'r hysbysiad adran 35 a ganslwyd yn ymwneud ag ef;
- yr enw lleol a roddir ar y tir fel arfer;
- manylion buddiant y ceisydd yn y tir hwnnw;
- datganiad o gyfrifon a'r dystiolaeth sy'n dangos:
  - y gwariant yr aeth y ceisydd iddo o ganlyniad i'r hysbysiad adran 35; a
  - y gwariant yr aed iddo o ganlyniad i ganslo'r hysbysiad (er enghraifft, costau adfer neu gostau canslo contractau);
- rhestr o'r holl ddogfennau ategol, gan gynnwys dyddiadau lle y bo'n gymwys;
- copi o'r hysbysiad adran 35;
- copi o'r hysbysiad canslo; a
- chopïau o'r holl ddogfennau y mae'r ceisydd yn bwriadu dibynnu arnynt.

95. Rhaid i'r person penodedig gadarnhau bod yr wybodaeth yn gyflawn, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth a dogfennaeth sy'n ofynnol wedi'i darparu cyn y gellir dechrau penderfynu.

## Penderfynu ar Geisiadau

96. Wrth dderbyn cais i ad-dallu treuliau neu ganslo hysbysiad adran 35, bydd Gweinidogion Cymru yn penodi rhywun i benderfynu ar y cais.

**Dyddiad Dechrau**

97. Ar ôl i gais ddod i law, bydd angen i'r person penodedig benderfynu a yw'r cais yn bodloni gofynion y Rheoliadau mewn perthynas â'i gynnwys a'i ddogfennau cysylltiedig. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud hyn, rhaid i'r person penodedig hysbysu'r ceisydd, yr Awdurdod a phob person a gafodd gopi o'r hysbysiad adran 35 am ei benderfyniad. Mae'r apêl yn dechrau ar y diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad. Mae'r "dyddiad dechrau" hwn yn sbarduno'r amserlenni ar gyfer camau dilynol yn y weithdrefn.

**Sylwadau a sylwadaethau**

98. Rhaid i'r Awdurdod gyflwyno unrhyw sylwadau ynghyd ag unrhyw ddogfennau o fewn pythefnos gan ddechrau â'r dyddiad dechrau. Ar ddiwedd y cyfnod o bythefnos, rhaid i'r person penodedig anfon copi o sylwadau'r Awdurdod at y ceisydd (gweler Atodiad 1 am dabl o ddyddiadau cau o dan yr adran hon o'r canllawiau).

## Dirymu penodiad

99. Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu penodiad y person penodedig, os na phenderfynwyd ar gais o dan adran 43 o'r Ddeddf, os bydd y naill a'r llall o'r canlynol yn gymwys:

- bod y person penodedig yn dweud wrth Weinidogion Cymru yn ysgrifenedig ei fod yn methu â pharhau i benderfynu ar y cais; neu
- fod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni fel arall fod y person penodedig yn methu â pharhau.

**Os bydd y person penodedig yn dweud wrth Weinidogion Cymru yn ysgrifenedig**

100. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft:

- os yw'r person penodedig yn mynd yn anhwylus neu'n analluog ac yn methu â pharhau â'r cais;
- os oes gan y person penodedig wrthdaro buddiannau neu os daw yn ymwybodol o wybodaeth sy'n creu gwrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig;
- os yw'r person penodedig yn newid cyflogaeth neu rôl broffesiynol ac nad yw'n gallu gweithredu'n annibynnol mwyach;
- os nad yw'r person penodedig yn bodloni gofynion ei benodiad mwyach; neu
- os nad yw'r person penodedig ar gael am gyfnod estynedig ac yn methu â phenderfynu ar y cais o fewn amserlen resymol.

**Os bydd Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni fel arall**

101. Gallai hyn godi, er enghraifft, pan fydd Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod y person penodedig:

- yn wynebu amgylchiadau sy'n peryglu ei annibyniaeth neu ei ddidueddrwydd;
- wedi methu â symud y cais yn ei flaen ac na ellir disgwyl yn rhesymol iddo wneud hynny;
- wedi peidio â gweithredu yn y rôl am resymau ymarferol neu gyfreithiol; neu
- fel arall, yn methu â chwblhau'r penderfyniad ar y cais mewn ffordd deg ac amserol.

102. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd Gweinidogion Cymru yn penodi rhywun arall cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol i benderfynu ar y cais o dan adran 43 o'r Ddeddf.

103. Os penodir person newydd, mae gan y person hwnnw'r disgresiwn i benderfynu fesul achos, p'un a ddylai apêl ailgychwyn o'r dechrau neu barhau o'r cam y mae eisoes wedi'i gyrraedd. Wrth wneud y penderfyniad hwn, bydd disgwyl i'r person penodedig ystyried amgylchiadau'r achos a'r dystiolaeth ysgrifenedig sydd eisoes wedi'i chyflwyno.

104. Gan fod deunyddiau a gyflwynwyd yn flaenorol yn parhau i fod yn rhan o'r cofnod, gan leihau'r angen i ddyblygu, disgwylir i'r person penodedig ystyried sut orau i reoli parhad a thryloywder mewn achosion o'r fath, yn enwedig os yw tystiolaeth ysgrifenedig eisoes wedi'i gyflwyno.

## Darpariaethau Atodol

105. Mae'r adran ganlynol o'r canllawiau yn esbonio'r darpariaethau atodol yn y rheoliadau, sy'n gymwys i geisiadau adran 38 (i amrywio neu ganslo hysbysiad adran 35) a cheisiadau adran 43 (i ad-dalu treuliau). Mae'r darpariaethau hyn yn nodi'r gweithdrefnau cyffredinol sy'n gymwys ym mhob cais, ni waeth pa fath o achos ydyw.

### Hysbysiad o benderfyniad

106. Rhaid i'r person penodedig anfon hysbysiad ysgrifenedig am y canlyniad at:

- y ceisydd;
- yr Awdurdod; ac
- unrhyw berson a gafodd gopi o'r hysbysiad adran 35 y mae'r apêl yn ymwneud ag ef yn wreiddiol.

### Cyflenwi dogfennau

107. Rhaid cyflwyno'r holl ddeunyddiau y mae'n ofynnol eu hanfon neu eu cyflenwi neu y caniateir iddynt gael eu hanfon neu eu cyflenwi mewn perthynas â chais yn ysgrifenedig, drwy'r post neu drwy gyfathrebu'n electronig, a chyflenwi dogfennau wedi'u cyfeirnodi ochr yn ochr â nhw er mwyn sicrhau cyflawnrwydd. Er mwyn symleiddio'r gwaith gweinyddol, mae'n ofynnol i'r ceisydd neu'r Awdurdod ddarparu dau gopi caled ac i gan bartïon eraill ddarparu tri chopi, oni chaiff dogfennau eu hanfon yn electronig. Caiff y person penodedig hepgor ailgyflwyno dogfen os yw eisoes wedi'i chyflenwi at ddibenion yr apêl a'i bod yn hygyrch i bawb.

108. Bydd cyfathrebiadau electronig a dderbynnir y tu allan i oriau busnes yn cael eu trin fel cyfathrebiadau a dderbynnir ar y diwrnod gwaith nesaf a gall sylwadau, dogfennau, tystiolaeth neu wybodaeth a gyflwynir yn hwyr gael eu diystyru er mwyn diogelu hygrededd gweithdrefnol. Os bydd y ceisydd yn cyflwyno unrhyw ddogfennau yn electronig, mae'n cydsynio i ddefnyddio'r e-bost ar gyfer pob agwedd ar y cais y gellir ei drafod yn y ffordd honno, hyd nes y caiff y cydsyniad hwn ei ddirymu'n ffurfiol yn ysgrifenedig. Drwy'r broses gyfan, bydd disgwyl i'r person penodedig orfodi dyddiadau cau a chynnal cofnodion cywir o dderbyn, dosbarthu ac unrhyw gyfarwyddiadau er mwyn sicrhau proses deg, dryloyw ac effeithlon.

**Estyn terfynau amser perthnasol a darparu gwybodaeth neu gopïau ychwanegol**

109. Dylai'r person penodedig arfer ei ddisgresiwn i estyn dyddiadau cau o dan amgylchiadau eithriadol yn unig, gan sicrhau bod y cais yn parhau i fod yn amserol, yn deg a gyda thystiolaeth dda. Lle y bo angen er mwyn penderfynu'n briodol ar y cais, efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth ar y person penodedig (er enghraifft, drwy ofyn i berson ddarparu deunydd perthnasol) neu efallai y bydd yn gwahodd sylwadau ychwanegol. Dylai'r person penodedig osod terfynau amser clir ar gyfer yr wybodaeth ychwanegol honno. Dylai'r holl benderfyniadau hynny gael eu cefnogi gan gyfarwyddiadau cymesur, dyddiadau cau a orfodir a chofnodion cywir sy'n esbonio'r rhesymau dros unrhyw estyniadau neu geisiadau pellach, a thrwy hynny ddiogelu atebolrwydd a hygrededd gweithdrefnol.

**Archwiliadau Safle**

110. Efallai y bydd person penodedig o'r farn bod angen ymweld â safle os yw gwneud hynny yn ei helpu i arfer ei swyddogaethau yn briodol o dan y rheoliadau hyn.

111. Caiff y person penodedig gynnal ymweliad safle ar ei ben ei hun neu yng nghwmni eraill os oes angen gwneud hynny i benderfynu ar y cais, gan hysbysu'r ceisydd ac unrhyw bartïon perthnasol o'r dyddiad a'r amser, fel y bo'n briodol. Rhaid i'r ymweliadau fod yn ddiduedd, a dylai'r person penodedig osgoi unrhyw ganfyddiad o ymgysylltu unochrog, gan sicrhau bod unrhyw sgyrsiau angenrheidiol yn digwydd gyda'r ddwy ochr yn bresennol, gan nodi'n glir, os yw parti yn bresennol ar ei ben ei hun er mwyn rhoi mynediad i'r tir, na fydd y cais yn cael ei drafod o gwbl.

112. Dylid cadw cofnodion clir o ddyddiad, amser ac arsylwadau'r ymweliad, gan gefnogi tryloywder ac atebolrwydd. Nid oes angen canslo na gohirio'r ymweliad os na fydd unrhyw berson, gan gynnwys y ceisydd, yn bresennol ar yr amser a benodwyd, ar yr amod bod y person penodedig yn gallu edrych ar y safle a'r ardal o'i amgylch yn ddigonol.

113. Mae'r canlynol yn nodi rhai enghreifftiau ynghylch pam y gall ymweliad safle helpu i lywio'r person penodedig fel rhan o apêl:

- Deall natur gorfforol y gwaith yr oedd yn ofynnol i'r perchennog ei wneud.
- Efallai y bydd angen i'r person penodedig weld y tir er mwyn asesu a yw'r gwariant a hawliwyd gan y ceisydd yn gyson â'r hyn y byddai ei angen yn rhesymol er mwyn cydymffurfio â'r hysbysiad adran 35.
- Cadanrhau pa waith a oedd eisoes wedi dechrau cyn i'r hysbysiad gael ei ganslo.

Os yw'r perchennog ar dir wedi hawlio ad-daliad am waith a oedd eisoes wedi'i wneud neu wedi'i gwblhau'n rhannol, efallai y bydd y person penodedig yn dymuno edrych ar unrhyw dystiolaeth weladwy o weithrediadau paratoadol neu wedi'u cwblhau'n rhannol (e.e., gwaith cloddio, sianeli draenio, llwybrau mynediad, clirio llystyfiant).

- Asesu a oes unrhyw gostau adfer a hawliwyd yn rhesymol.

Gall perchennog tir hawlio am wariant a achoswyd drwy ganslo, sy'n cynnwys costau adfer tir. Gall y person penodedig ymweld â'r safle i ddeall hyd a lled y gwaith adfer sydd ei angen ac a yw'r costau a hawliwyd yn ymddangos yn gymesur o gofio cyflwr ffisegol y tir.

- Cael eglurder ynglŷn â ffeithiau dadleuol rhwng y perchennog a'r Awdurdod.

Os bydd y dystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys disgrifiadau gwahanol, er enghraifft, o faint o waith a ddechreuwyd, cyflwr y safle ar adeg canslo neu resymoldeb y camau paratoadol, efallai y bydd y person penodedig yn ystyried bod angen ymweld â'r safle er mwyn datrys ansicrwydd ffeithiol.

## Methu â Chymryd Camau Gweithredu

114. Er mwyn atal oedi diangen, gall y person penodedig fwrw ymlaen i benderfynu ar gais os bydd y ceisydd neu'r Awdurdod yn methu â darparu gwybodaeth ofynnol o fewn y terfynau amser a ragnodir, ar yr amod y rhoddir rhybudd ymlaen llaw o'r bwriad hwn i'r ddau barti. Rhaid i benderfyniadau fod yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael a chael eu gwneud mewn ffordd deg a thryloyw. Bydd disgwyl i'r person penodedig gadw cofnodion clir sy'n cadarnhau bod hysbysiad priodol wedi'i gyhoeddi a bod y rhesymeg dros fwrw ymlaen heb yr wybodaeth goll wedi'u dogfennu.

**Tynnu'r cais yn ôl**

115. Caiff y ceisydd dynnu'r cais yn ôl ar unrhyw adeg cyn i'r person penodedig benderfynu ar yr apêl drwy ysgrifennu at Weinidogion Cymru.

116. Os caiff cais ei dynnu'n ôl, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r Awdurdod a phob person a gafodd yr hysbysiad adran 35, neu gopi ohono, ei fod wedi cael ei dynnu'n ôl.

# Atodiad 1

## Gwneud Sylwadau a Sylwadaethau

Mae'r tabl hwn yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r person penodedig, yr Awdurdod a'r ceisydd ei wneud, ac erbyn pryd, ar gyfer ceisiadau o dan adran 38 i amrywio neu ganslo hysbysiad. Mae pob dyddiad cau yn rhedeg o ddyddiad dechrau'r apêl.

### A) Sylwadau ysgrifenedig (adran 38)

| Cam | Pwy? | Beth y mae'n rhaid ei anfon at y person penodedig? | Terfyn amser (o'r dyddiad dechrau) | Beth y mae'n rhaid i'r person penodedig ei wneud? |
|---|---|---|---|---|
| Sylwadau cychwynnol | Awdurdod | Unrhyw sylwadau y mae'r Awdurdod yn dymuno eu gwneud mewn perthynas â'r apêl, ynghyd ag unrhyw ddogfennau y bydd yn dibynnu arnynt. | Erbyn wythnos 4 | Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael y sylwadau a'r dogfennau gan yr Awdurdod, dylid anfon copi o'r rhain at y ceisydd. |
| Sylwadau ychwanegol dewisol | Ceisydd | Unrhyw sylwadau ychwanegol (y tu hwnt i'r cais a'r dogfennau a gyflwynwyd ar y cyd â'r cais) | Erbyn wythnos 4 | Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael y sylwadau a'r dogfennau ychwanegol gan y ceisydd, dylid anfon copi o'r rhain (os oes rhai) at yr Awdurdod. |
| Sylwadau eraill mewn perthynas â'r apêl | Unrhyw un ar wahân i'r Awdurdod a'r ceisydd | Os bydd y person penodedig yn cael cynrychioliadau gan unrhyw un ar wahân i'r Awdurdod a'r ceisydd | (Nid yw hyn yn ofynnol) | Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael sylwadau eraill mewn perthynas â'r apêl, dylid anfon copïau o'r sylwadau eraill hynny at y |

| Cam | Pwy? | Beth y mae'n rhaid ei anfon at y person penodedig? | Terfyn amser (o'r dyddiad dechrau) | Beth y mae'n rhaid i'r person penodedig ei wneud? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ceisydd a'r Awdurdod. |
| Sylwadaethau ar sylwadau | Y Ceisydd a'r Awdurdod | Sylwadaethau ar y sylwadau a gafodd eu cyfnewid yn wythnos 6 | Erbyn wythnos 6 | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl wythnos 6, dylid anfon copi o sylwadaethau'r Awdurdod at y ceisydd ac, ar yr un pryd, gopi o sylwadaethau'r ceisydd at yr Awdurdod. |
| Rhagor o wybodaeth / sylwadaethau (os bydd y person penodedig yn gofyn amdani / amdanynt) | Y Ceisydd a/neu'r Awdurdod | Unrhyw wybodaeth, sylwadau neu ddogfennau pellach y gofynnodd y person penodedig amdanynt. | Erbyn unrhyw derfyn amser a bennir gan y person penodedig | Os bydd deunydd pellach yn dod i law, bydd disgwyl i'r person penodedig ddosbarthu deunydd o'r fath i'r parti arall cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a hynny fel mater o arfer da. |

## B) Gwrandawiad neu ymchwiliad (adran 38)

| Cam | Pwy? | Beth y mae'n rhaid ei anfon at y person penodedig? | Terfyn amser (o'r dyddiad dechrau) | Beth y mae'n rhaid i'r person penodedig ei wneud? |
|---|---|---|---|---|
| Datganiadau achos a | Y Ceisydd a'r Awdurdod | Bydd datganiad sy'n cynnwys | Erbyn wythnos 4 | Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl |

| Cam | Pwy? | Beth y mae'n rhaid ei anfon at y person penodedig? | Terfyn amser (o'r dyddiad dechrau) | Beth y mae'n rhaid i'r person penodedig ei wneud? |
|---|---|---|---|---|
| rhestrau o ddogfennau | | manylion llawn yr achos sydd i'w gyflwyno, ynghyd â rhestr o'r dogfennau y dylid cyfeirio atynt neu eu rhoi mewn tystiolaeth | | cael y datganiad a'r rhestr o ddogfennau gan yr Awdurdod a'r ceisydd, dylid anfon datganiad yr Awdurdod a'i restr o ddogfennau at y ceisydd, a datganiad y ceisydd a'i restr o ddogfennau at yr Awdurdod. |
| Sylwadau eraill mewn perthynas â'r apêl | Unrhyw un ar wahân i'r Awdurdod a'r ceisydd | Os bydd y person penodedig yn cael cynrychioliadau gan unrhyw un ar wahân i'r Awdurdod a'r ceisydd | (Nid yw hyn yn ofynnol) | Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael sylwadau eraill mewn perthynas â'r apêl, dylid anfon copïau o'r sylwadau eraill hynny at y ceisydd a'r Awdurdod. |
| Sylwadau ar ddatganiadau | Y Ceisydd a'r Awdurdod | Sylwadaethau ar ddatganiad y parti arall a'i restr o ddogfennau | Erbyn wythnos 6 | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl wythnos 6, dylid anfon copi o sylwadaethau'r Awdurdod at y ceisydd ac, ar yr un pryd, gopi o sylwadaethau'r ceisydd at yr Awdurdod. |

| Cam | Pwy? | Beth y mae'n rhaid ei anfon at y person penodedig? | Terfyn amser (o'r dyddiad dechrau) | Beth y mae'n rhaid i'r person penodedig ei wneud? |
|---|---|---|---|---|
| Rhagor o wybodaeth / sylwadaethau (os bydd y person penodedig yn gofyn amdani / amdanynt) | Y Ceisydd a/neu'r Awdurdod | Unrhyw wybodaeth, sylwadau neu ddogfennau pellach y gofynnodd y person penodedig amdanynt. | Erbyn unrhyw derfyn amser a bennir gan y person penodedig | Os bydd deunydd pellach yn dod i law, bydd disgwyl i'r person penodedig ddosbarthu deunydd o'r fath i'r parti arall cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a hynny fel mater o arfer da. |

Mae'r tabl hwn yn nodi beth y mae'n rhaid i'r person penodedig, yr Awdurdod a'r ceisydd ei wneud, ac erbyn pryd, ar gyfer ceisiadau o dan adran 43 i ad-dalu gwariant yr aed iddo ar ôl i hysbysiad adran 35 gael ei ganslo. Mae pob dyddiad cau yn rhedeg o ddyddiad dechrau'r apêl.

**A) Sylwadau ysgrifenedig (adran 43)**

| Cam | Pwy | Beth y mae'n rhaid ei anfon at y person penodedig? | Terfyn amser (o'r dyddiad dechrau) | Beth y mae'n rhaid i'r person penodedig ei wneud? |
|---|---|---|---|---|
| Sylwadau cychwynnol | Awdurdod | Unrhyw sylwadau y mae'r Awdurdod yn dymuno eu gwneud, ynghyd ag unrhyw ddogfennau y bydd yn dymuno dibynnu arnynt. | O fewn pythefnos | Ar ddiwedd wythnos 2, anfonwch gopi o sylwadau'r Awdurdod at y ceisydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dosbarthu sylwadau | Person penodedig | — | Ar ddiwedd wythnos 2 | Dylid anfon copi o sylwadau'r Awdurdod at y ceisydd. |
| Rhagor o wybodaeth / sylwadaethau (os bydd y person penodedig yn gofyn amdani / amdanynt) | Y Ceisydd a/neu'r Awdurdod | Unrhyw wybodaeth, sylwadau neu ddogfennau pellach y gofynnodd y person penodedig amdanynt. | Erbyn unrhyw derfyn amser a bennir gan y person penodedig | Os bydd deunydd pellach yn dod i law, bydd disgwyl i'r person penodedig ddosbarthu deunydd o'r fath i'r parti arall cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a hynny fel mater o arfer da. |

*Noder: Yn y Rheoliadau, mae gweithdrefn sylwadau ysgrifenedig adran 43 yn darparu ar gyfer sylwadau gan yr Awdurdod o fewn pythefnos a'u dosbarthu i'r ceisydd. Nid yw'r Rheoliadau yn gosod cam "sylwadaethau" cyffredinol ar gyfer ceisiadau adran 43; lle y bo angen, gall y person penodedig ofyn am wybodaeth o dan amgylchiadau eithriadol, o dan y darpariaethau atodol.*

**Atodiad 2 Rhestr termau**

Mae'r atodiad hwn yn esbonio'r termau allweddol a ddefnyddir yn y canllawiau hyn.

| **Term** | **Ystyr** |
|---|---|
| Y Ddeddf | Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025. |
| Apêl | Mae hyn yn cyfeirio at benderfyniad ar gais o dan adran 38 (Rhan 2) neu adran 43 (Rhan 3), yn dibynnu ar y cyd-destun. |
| Ceisydd | Mae hyn yn cyfeirio at berson sy'n gwneud cais o dan adran 38 neu adran 43, yn dibynnu ar y cyd-destun. |
| Cais | Yn dibynnu ar y cyd-destun, mae hyn yn cyfeirio at gais i Weinidogion Cymru o dan adran 38 (i amrywio neu ganslo hysbysiad adran 35) neu o dan adran 43 (i ad-dalu treuliau ar ôl i hysbysiad adran 35 gael ei ganslo). |
| Person penodedig | Person a benodir gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar geisiadau a wneir o dan adrannau 38 a 43. |
| Awdurdod | Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru |
| Gwrandawiad | Gweithdrefn ar lafar ar gyfer penderfynu ar apêl, a all ddigwydd wyneb yn wyneb, o bell, neu ar ffurf hybrid, fel y caniata'r Rheoliadau. Ni chaniateir croesholi ar y cyfan, ond mae yna eithriadau. |
| Ymchwiliad | Gweithdrefn lafar fwy ffurfiol na gwrandawiad, sy'n cynnwys tystion a chroesholi fel arfer, sy’n cael ei chynnal yn unol â'r Rheoliadau. |
| Hysbysiad o Ganslo | Hysbysiad a roddir gan yr Awdurdod yn canslo hysbysiad adran 35. |
| Hysbysiad Adran 35 | Hysbysiad a roddir gan yr Awdurdod yn gofyn i berchennog tir gyflawni gweithrediadau penodedig. |
| Cais Adran 38 | Cais i amrywio neu ganslo hysbysiad adran 35. |
| Cais Adran 43 | Cais sy'n ceisio adennill treuliau os yw hysbysiad adran 35 wedi'i ganslo. |
| Dyddiad dechrau | Y dyddiad y mae'r apêl yn dechrau. |

| | |
|---|---|
| Y Rheoliadau | Rheoliadau Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Apelau ac Ad-dalu Treuliau) (Cymru) 2027 |